# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION – CYFARFOD HYDREF 2018

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 17eg o Hydref 2018** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd etholwyd Bryn Hughes i gadeirio'r cyfarfod. Estynnwyd croeso i bawb. Yn bresennol roedd Gwilym Thomas, Peter Roberts, Elin Evans, Nerys Evans, Jason Hunt, Gwilym Lloyd Williams a Tom Ellis. Hefyd yn bresennol roedd y Clerc, Eleri Thomas. |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Cafwyd ymddiheuriadau gan Aeron M Jones, Michelle Williams a Rhodri Dwyfor. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | Datganwyd buddiant gan GT ar lythyr a dderbyniwyd  gan drigolion Tan y Celyn, Sŵn y Môr a Talardd, Llanwnda, ynglŷn â'r cais cynllunio tir tu cefn i'w cartrefi. |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 19.09.18 a materion yn codi** |
| | Nodwyd fod angen newid y gair Garej Dinas i Garej Dolydd ym mhwynt 11.<br><br>Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan NE ag eiliwyd gan EE.<br><br>Materion yn codi<br>*18.07.18 - 5f. Torri gwair ochr lonydd yr ardal*<br>*Gofynnodd TE a fyddai'n bosib gofyn i Wyn Williams wneud toriad ychwanegol ger Hen Gastell gan nad oedd CG yn ei wneud fel rhan o'u cynllun gwaith.* |
| **5.** | **Materion misol** |
| | **a) Trydan Llanwnda**<br>Dim i'w adrodd yn y cyfarfod hwn.<br><br>**b) Bysiau**<br>Yn dilyn toriadau yng ngwasanaeth y bysiau, trafodwyd y gwir effaith yr oedd hyn yn ei gael ar y rhai oedd yn ddibynnol ar y gwasanaeth. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r swyddog trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd, i weld os oedd modd cael unrhyw wasanaeth bws ar gyfer Rhos Isaf a Maes Tryfan. Mae diffyg gwasanaeth o gwbl yn cael effaith anghymdeithasol iawn ar yr oedrannus yn y gymuned.<br><br>**c) Defibrillator Rhostryfan**<br>Cadarnhaodd NE y byddai'n cysylltu gyda Phwyllgor Rhostryfan er mwyn rhoi cais mewn llythyr i Grŵp Chwarel Moel Tryfan am arian grant tuag at y defibrillator.<br><br>**d) Graeanu**<br>Nodwyd mai cyfrifoldeb CG oedd graeanu. Oherwydd bod risg uchel o ddamweiniau yn gallu digwydd trwy ddiffyg graeanu, gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r yswirwyr i weld beth oedd eu hymateb nhw. Os byddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb am y gwaith, beth fyddai'r oblygiadau wedyn os byddai'r trigolion yn disgyn a brifo? Penderfynwyd holi CG os yr oeddynt yn casglu'r biniau halen o'r ardal beth fyddai'n digwydd i'r trigolion sydd yn methu mynd i'w gwaith wedyn?<br><br>**e) Twll yn llwybr Bryngwyn**<br>Penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf. |

| | |
|---|---|
| | **f) Cyfansoddiad a Pholisïau'r Cyngor**<br>Yn absenoldeb AMJ penderfynwyd trafod y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**g) Safle we gyfredol + ymgysylltu gyda'r cyhoedd**<br>Cadarnhaodd y clerc fod y gwaith yn mynd yn ei flaen a bod ambell newid i'w wneud cyn y byddai'n barod i'w gyhoeddi. Penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**h) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019 – 2023**<br>Yn absenoldeb AMJ penderfynwyd trafod y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**i) Taclo baw cwn**<br>Cadarnhaodd y clerc y byddai'n holi RD am fwy o fanylion ar gyfer y biniau baw ci compost.<br><br>**j) Sedd wag – Ward Dinas – Hysbysiad o Gyfethol**<br>Derbyniwyd un cais ar gyfer sedd wag Ward Dinas. Penderfynodd y Cyngor i gyfethol Huw Rowlands, fel aelod newydd i Gyngor Cymuned Llanwnda. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gydag Huw er mwyn estyn gwahoddiad iddo i'r cyfarfod mis Tachwedd.<br><br>**k) JH – Cae Coch / Tan y Fron, Rhostryfan**<br>Derbyniwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â char yn parcio ar lwybr cyhoeddus ger Tan y Fron, Rhostryfan. Adroddwyd bod ffens wedi ei dynnu i lawr a llechi wedi eu rhoi ar y llwybr er mwyn gwneud lle i barcio car. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r Adran Llwybrau, CG er mwyn iddynt wneud ymweld â'r safle ac i ofyn iddynt ba gamau a fyddai'r cyngor cymuned yn gallu ei chymryd?<br><br>**l) GW – Bocs GPO, ger Garej Dolydd**<br>Derbyniwyd ymateb gan CG fod yr arolygwr ffyrdd wedi gofyn i'r Uned Gwaith Stryd gyflwyno rhybudd i BT newid y gorchudd dan Adran 81 o'r "New Roads and Streetworks Act".<br><br>**m) EE – Drain wedi tyfu ar y palmentydd (ger Gerddi Benar)**<br>Cadarnhaodd y clerc y byddai'n cysylltu gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i'w hysbysu.<br><br>**n) EE - Grisiau i lawr am y tai dros y bont (ger Dŵr Cymru, Dinas)**<br>Adroddodd y clerc y byddai'n cysylltu gydag CG i lanhau'r mwsogl oddi ar y grisiau.<br><br>**o) NE – Carreg Fawr Wernlas Ddu – dwr ar y lon**<br>Cadarnhawyd fod y gwaith hwn wedi ei gwblhau erbyn hyn.<br><br>**p) NE - Dim llinellau gwyn o Fryn Peris T Junction**<br>Adroddwyd bod y gwaith hwn ar restr gwaith CG. |
| **6.** | **Derbyn Adroddiadau** |
| | a) Ymateb CG i faterion a godwyd yng nghyfarfod 19eg o Fedi.<br>Adroddodd y clerc yr ymatebion yr oedd wedi ei derbyn.<br>b) Ymateb Dŵr Cymru i broblemau Bro Wyled.<br>Adroddwyd fod Dwr Cymru am osod "pressure reducing valve". |
| **7.** | **Materion Ariannol** |
| | **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar yr 17eg o Hydref 2018**<br>**1. Cyfrif Cadw** |

| | | |
|---|---|---|
| | Balans a ddygwyd ymlaen (19.09.18) | 36,647.14 |
| | Trosglwyddo £1000 i'r cyfrif siec | - 1,000.00 |
| | **Balans ar derfyn busnes 17 Hydref 2018** | **£35,647.14** |
| | **2. Cyfrif Siec** | |
| | Balans a ddygwyd ymlaen (19.09.18) | 3616.41 |
| | +Arian wedi ei drosglwyddo o'r cyfrif cadw | 1000.00 |
| | +Claddedigaeth | 100.00 |
| | - 101085 – Cyflog y Clerc Medi 2018 | 446.80 |
| | - BP – Cyllid y Wlad Medi 2018 | 101.20 |
| | - 101086 – Un Llais Cymru | 40.00 |
| | **Balans ar derfyn busnes 17 Hydref 2018:** | **£4128.41** |
| | Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 17eg o Hydref 2018: | |
| | Cyflog y Clerc Hydref 2018 | 447.00 |
| | Cyllid y wlad Hydref 2018 | 101.00 |
| | Swyddfa Archwilio Cymru | 356.25 |
| | Wyn Williams | 2269.00 |
| | **Cyfanswm** | **£3173.25** |
| | Cytunwyd i'r taliadau yma am y mis. | |
| **9.** | **Materion Cynllunio** | |
| | **Cais cynllunio - C18/0885/24/LL** - Cais ar gyfer dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad deulawr a newid to flat i do pitch - Fronhyfryd, Rhosgadfan, LL54 7EY. **DIM GWRTHWYNEBIAD A DIM SYLWADAU**.<br>**Cais cynllunio - C18/0879/24/LL** - Codi modurdy / gweithdy ar wahân ag ymestyn cwrtil - Bryn Derwen, Rhostryfan, Caernarfon LL54 7NB. **DIM GWRTHWYNEBIAD A DIM SYLWADAU**.<br>**Cais cynllunio - C18/0868/24/LL** - Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C14/0549/24/LL er mwyn cynyddu uchder crib to'r ddau dy, tynnu amod 9 er mwyn dileu adeiladau siediau gardd a rhyddhau amod 3 sy'n ymwneud a llechi to - Tir ger Bodafon, Rhosgadfan, Caernarfon LL54 7HP. **DIM GWRTHWYNEBIAD A DIM SYLWADAU**. | |
| **10.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** | |
| | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>a) Dogfen Ymgynghori Gyhoeddus Canllawiau Atodol - Datblygiadau Tai Newydd a Thai Marchnad Leol – Cytunodd GT y byddai'n darllen y ddogfen ac yn adrodd unrhyw sylwadau yn y cyfarfod nesaf.<br>b) CG – Arolwg Cyhoeddus Pa wasanaethau sydd yn bwysig i chi? - Cytunwyd i annog y trigolion i lenwi'r ffurflen ar-lein.<br>c) CG – Gwaharddiad Trafnidiaeth Tanrallt, Rhostryfan – nodwyd y gwaith oedd angen ei gwblhau.<br>ch) CG – Ail-wynebu Ffordd Felinwnda – Croesffordd Saron – nodwyd y gwaith oedd angen ei gwblhau.<br>CG - Ail-wynebu Bodfan i Benrallt, Rhosgadfan – nodwyd y gwaith oedd angen ei gwblhau. | |

| | |
|---|---|
| | Cyfarfod Chwarel Moel Tryfan - nodwyd fod y dyddiad wedi newid i'r 6ed o Ragfyr, 2018<br>d) Derbyniwyd llythyr ynglŷn â choeden oedd gyda pherygl o ddisgyn ar fedd ym Mynwent Cefnfaes, gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Chwmni Gwalch i holi am bris i'w thorri cyn caniatáu i'r gwaith fynd yn ei flaen.<br>dd) Derbyniwyd e-bost gan drigolion Tan y Celyn, Sŵn y Môr a Talardd, Llanwnda, yn datgan fod y cais cynllunio gwreiddiol a gafodd ei drafod yng nghyfarfod mis Hydref yn wahanol i'r cais cynllunio gwreiddiol. Cydnabuwyd a derbyniwyd yr e-bost. Nid oedd y Cyngor yn gallu rhoi sylwadau arno gan nad oedd wedi ei gynnwys ar yr agenda fel cais cynllunio mis hwn. Penderfynwyd cysylltu gyda CG i ofyn am estyniad i ymateb i'r cais, hefyd i holi os oedd AMJ gyda mwy o wybodaeth am newidiadau'r cynllun tai. Penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf. |
| **11.** | **Materion Cyfarfod Nesaf** |
| | GW - Sgwâr Rhos Isaf - graen wedi casglu.<br>GW - Sgwâr Rhos Isaf i Gae Garw - angen ail batchio.<br>GW - Sgwâr Rhos Isaf i gyfeiriad Rhostryfan - brigau yn tyfu i'r Ffordd, oes modd i CG gysylltu gyda'r perchnogion.<br>GT - Cais cynllunio ger Tan y Celyn, Sŵn y Môr a Talardd, Llanwnda. Angen ail-edrych ar y ceisiadau cynllunio.<br>BH - Llwybr heibio'r capel i'r sgwâr angen ei dorri unwaith eto.<br>PR – Oes rheol gyda gadael bin ysbwriel / bagiau biniau allan ar y ffordd yn Rhosgadfan? – Clerc i gysylltu gyda CG.<br><br>**Dyddiad: 21ain o Dachwedd 2018 - 7.00yh**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSGADFAN** |